1742

# *Can Newydd,*

SEF,

CWYNFAN Y TRIGOLION,

O ACHOS

## PRINDER GWAITH

AC ARIAN

*YN YR AMSER PRESENOL,*

AC YN DANGOS FOD LLE

## I'R AMSER WELLHAU

## HEB RYFEL.



*Gan Stephen Jones, Llanfaeryw.*

1836.

# *CAN NEWYDD, &c*

Pob ffarmwr a phob crefftwr, pob labrwr, gweithiwr gwan
Mi glywaf am y Glowyr, a'r Mwynwyr yn mhob man,
A phawb sydd a'u bywolaith oddiwrth eu gorchwyl gwaith,
Fod llawer a'u calonau yn llwfr ac yn llaith.

Mae llawer gŵr lled rymus i'w weled ma's o waith,
Yn berchen ar blant bychain, o gwmpas chwech neu saith,
A rhai yn perchen rhagor, heb un yn ennill fawr,
A'u tad hwy llawer wythnos heb feddu ar waith awr.

Mae chwithder mawr i ddynion yn perchen moddion maith,
I gael eu taflu a'u taclo, a'u gweithio lawer gwaith;
Mae llawer o gyfnewid mewn bywyd yn y byd,
Pan gollo gŵr ei gyfoeth fe gyll ei ffrins i gyd.

Pan 'rown i'n byw ar f'arian, a thŷ bach yn y dre',
Fe ddei'm perth'nasau i'm gweled, cyn lloned yn bob lle;
Rhai'n d'od a'r gwenith hyfryd, ac hefyd hufen haf,
A gwobr'o'r plant yn llawen , O dyma fachgen braf!

Ond wedi imi dorri, a gwerthu'm pethau i bant,
Fe flinai'm hen gyfeillon i wobr'o fawr o'r plant;
Nis gwelais mwy mo f' ewythr a'r gwenith gydag e',
Na hithau Modryb Modlon, a'r hufen yn y te.

Nag un o'r hen gyfeillion oedd gynt fel menyn Mai,
Hwy droisant arna'i cefnau yn rhyfedd 'nawr bob rhai;
Yr oeddwn gynt yn meddwl fod genyf ffryndiau gwiw.
Roedd genyf ewythr rhwyddlon yn byw ar ben y rhiw.

X205246493

Pan ro'wn i'n perchen cyfoeth, ac weithiau 'nmyn'd i'w dy
Fe geisiai'r bwyd a'r *li uor, the very best for me,*
Ond wedi imi dorri, a myn'd at yr un gŵr,
Ce's lyncad bach o enwyn yn deneu am ben dŵr.

Mae'n awr yn amser rhyfedd o fewn i Brydain Fawr
Mae rhenti trwm a'r trethi ar dorri'r wlad i lawr;
Mae llawer un, 'r wy'n credu, 'n dymuno yn y wlad,
Am llwyddiant i fab Boni i g'odi yn lle ei dad.

Dymunwn inau'n sicr gael gweled amser gwell,
Ond nid trwy ryfel gwaedlyd, yr y'ch chwi'n colli mhell
Pe byddai'r rhenti'n cwympo yn ol y prisiau 'nawr,
A pheth o'r trethi trymion, a'r *duty* 'n d'od i lawr.

Beth! gostwng yn y rhenti, medd un o feistri'r tir,
Pan elo'r lle yn segur, ni saif e ddim yn hir;
Ni choeliaf, medd y *Steward*, nad oedd yno haner cant,
Yn agos yr un diwrnod, yn rhedeg am Blaen-pant.

Mi dd'wedaf i chwi'r achos o'r pethau yma'n awr,
Trigolion sydd aml, a'r llefydd yn rhy fawr,
Mae ffermydd dair neu bedair gan lawer gwr ei hun,
A channoedd all eu cynnal yn gorfod bod heb un.

Os bydd i'r *act* i ddyfod, fel d'wedoedd Brooks o'r Flint,
Na chaiff un gŵr i gynnal un ffarm dros driugain punt;
Ac yno fe ddaw y ffermydd ar gynnydd i bob un,
Nid un a thair neu bedair mewn hyder iddo 'i hun.

Bu llawer un mewn cynnwrf, do gynt yn ffermwr *squar*,
Sy'n methu yn bresennol gael lle i gadw iâr;
Daw lle i hwnw etto i gadw buwch neu ddwy,
Ac f' allai yn dypyn i gadw llawer mwy.

Shon gaiff fyn'd i ddyrnu, a Shan i odro'r fuwch,
Yn lle bod yn y cornel yn lluchu rhag y lluwch;
Caiff Cadi dendio'r gwyddau, a Modlen dendio'r moch,
Caiff Gruffydd dendio'r ceffyl a cherio'r gaseg goch.

Y merched a gânt gorddi a thrin y ffrwythau'n ffraeth,
Caiff Lowri gweirio'r 'menyn, a Besi didlo'r llaeth;
Caiff Rachel olchi'r llestri, a Sali 'sgubor'r llawr;—
A dyna lle bydd caru ar Fari'r forwyn fawr.

Caiff Gweno fyn'd i olchi, o Phegi gario dwr,
A Shàn gaiff smwddio'r dillad, a thendio Shon y gwr,
Caiff Nedi ddodi llafur, ac Wymffre gydag e',
Ac wedi'n ar ol medi cant fyn'd i ffair y dre.

Ac yno bydd y bechgen yn gweddi, *Now walk in,*
*Sit down, my dearest Betsy, and take a glass of gin;*
Bydd Wmffre'n tretio Sali, ac yn ei chlosio'n dyn,
Gwerth geiniog gaiff o 'falau, a thorth o fara gwyn.

Bydd Nedi, Dic, a Deio, yn tiwnio fel y gloch,
Hwy dretiant eu cariadau 'nol gwertho Shon y moch;
Bydd ambell un yn feddw drwy rym y brag a'i nerth,
Yn tynu wrth fyned adre' ei gariad dan y berth.

Daw gwaith i'r seiri meini, daw gwaith i'r seiri coed,
I fildio tai newyddion os bydd i'r *act* i dd'od;
Daw gwaith i'r gweydd 'stofi a thaflu law a'i dro'd,
Daw gwaith i modryb Modlen i handlo'r grib a'r rhod.

Daw gwaith i'r labrwr hefyd, a phawb o'r crefftwyr glân;
Ac yno bydd y gwragedd yn tiwnio wrth y tân
A d'wedyd ambell 'stori fel 'roeddynt yr amser gynt,
Ac ambell ddracht o frandi i dorri gwaew gwynt.

DIWEDD.

